Apêl Bocs Anrheg Nadolig Age Cymru 2018

Eleni, mae Age Cymru yn galw ar y cyhoedd i lenwi bocsys esgidiau wedi eu lapio, gydag eitemau fel y rhai sy'n cael eu rhestru isod, wrth i ni geisio gwneud y Nadolig yn adeg arbennig i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. Yn unol â'n hethos "Ni ddylai neb fod heb rywun i droi ato", a chan fod llawer o breswylwyr cartrefi gofal heb deulu agos i ymweld â nhw dros yr wŷl, rydym yn gobeithio y bydd cael anrheg i'w hagor yn gwneud gwahaniaeth mawr iddyn nhw.

Sut allwch chi fod o help

- **Dewch o hyd i focs esgidiau – Lapiwch y bocs a'r caead ar wahân mewn papur lapio Nadoligaidd, neu gallwch ddefnyddio bocs â phrint Nadoligaidd arno.**
- **Rhowch label arno i ddangos a yw'r anrheg ar gyfer gwryw, benyw neu unrhyw un.**
- **Llenwch y bocs ag anrhegion – Edrychwch ar ein rhestr o awgrymiadau isod**
- **Ychwanegwch elfen bersonol – Byddai'n hyfryd petai'n bosib i chi gynnwys cerdyn neu lythyr Nadolig yn eich llawysgrifen, a gallech roi llun ohonoch chi a'ch teulu os ydych yn dymuno.**
- **Danfonwch eich bocs anrheg – Peidiwch â selio'r bocs anrheg, os gwelwch yn dda. Rhowch fand elastig o amgylch y bocs ar ôl ei gau. Rydych nawr yn barod i ddanfon eich bocs at ein tîm yn Age Cymru, Llawr Gwaelod, Mariners House, East Moors Road, Caerdydd, CF24 5TD.Gofynnwn yn garedig ichi ddanfon eich bocsys erbyn dydd Mercher 19 Rhagfyr.**

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, gallwch gysylltu â Sarah Lord ar 029 2043 1555 neu anfon neges e-bost: sarah.lord@agecymru.org.uk.

Awgrymiadau:

Menig/ Sgarffiau/ Het/Hosanau/ Teits
Hancesi/ Hancesi Papur / Cadach Ymolchi
Gemau maint teithio e.e. Scrabble /Draffts / Jig-so/ Dominos/ Cardiau Chwarae
Llyfrau pos
Pinnau ysgrifennu / Setiau ysgrifennu /Llyfr nodiadau
Llyfrau
Ffrâm Llun/Albwm Lluniau

Dyddiadur/Calendr/ Cwpan
Brwsh/Crib a Drych/ Clipiwr Ewinedd/Brwsh Ewinedd/ Siswrn bach / Set/Eitemau Crefft /Pecyn gwnïo/ Tortsh weindio /Radio/ Sebon /Brwsh dannedd /Past dannedd / Eli/Siampŵ/gel cawod/ Danteithion/Fferins/Siocled/ Bisgedi
Eitemau Synhwyraidd
Addurn Nadolig Arbennig

Peidiwch ag ychwanegu unrhyw eitemau ail-law / wedi eu defnyddio nac alcohol yn eich bocs anrheg, os gwelwch yn dda.